AC 01-99(p.3)(w)

# Memorandwm gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian

*Cyflwynwyd i Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru*

**Medi 1999**

## Cynnwys

Cyflwyniad 1

Rhaglen archwiliadau gwerth am arian arfaethedig 2

Cost rhaglen archwiliadau gwerth am arian arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol 8

Casgliad 11

Atodiad A - Pynciau posibl ar gyfer archwiliadau gwerth am arian gan Archwilydd Cyffredinol Cymru 12

Atodiad B - Archwiliadau gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

yr ymgymerir â hwy ar hyn o bryd ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru 27

# Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian

**Cyflwyniad**

1. Darpara'r Memorandwm hwn wybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio ar fy rhaglen archwiliadau gwerth am arian arfaethedig ar gyfer 2000-2001 a blynyddoedd dilynol. Rhestrir y pynciau posibl i'w harchwilio isod ynghyd â nodiadau cryno ar bob un yn Atodiad A.

2. Bydd y Pwyllgor yn cofio y bydd hefyd ganddo bedwar archwiliad gwerth am arian y mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn gweithio arnynt ar hyn o bryd i'w hystyried. Mae'r rhain yn ymwneud â Cadw, Awdurdod Datblygu Cymru, Morglawdd Bae Caerdydd a thrin honiadau o esgeulustod clinigol gan yr NHS yng Nghymru. Darpara Atodiad B fanylion cryno am bob un o'r rhain. Yn ogystal, rwyf wrthi'n paratoi papurau i'r Pwyllgor ar y fenter Gwerth Gorau mewn llywodraeth leol yng Nghymru; trefniadau ar gyfer materion disgyblaethol yr heddlu; a gwaith diweddar yr ymgymerwyd ag ef gan y Comisiwn Archwilio a allai fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Yn olaf, rwyf yn ategu'r memorandwm hwn gyda nodyn ar wahân sy'n rhestru'r adroddiadau a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ers 1995-96. Wrth baratoi fy rhaglen arfaethedig i Gymru rwyf wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r profiad a'r arbenigedd a ddatblygwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wrth gynnal archwiliadau gwerth am arian ar ystod lawn gweithgaredd y llywodraeth. Mae fy rhaglen arfaethedig hefyd yn adlewyrchu gwaith arall yr ymgymerir ag ef gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn y Deyrnas Gyfunol mewn meysydd sy'n berthnasol i gyfrifoldebau'r Pwyllgor.

3. Mae'r memorandwm hwn yn gwahodd y Pwyllgor

- i benderfynu ar nifer a natur yr astudiaethau y bydd eu hangen arno a rhoi gwybod i'r Cynulliad am y gofyniad ariannol;
- i roi safbwynt rhagarweiniol i Archwilydd Cyffredinol Cymru parthed pa bynciau sydd o ddiddordeb penodol i'r Aelodau neu, yn wir, i awgrymu pynciau eraill nas cynhwysir ymhlith y rheini a restrir isod.

Ar y pwynt olaf hwn, bydd y Pwyllgor yn cofio, o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mai'r Archwilydd Cyffredinol fydd â'r dewis terfynol o ran yr astudiaethau. Fodd bynnag, cyn terfynu fy rhaglen archwiliadau gwerth am arian, buaswn yn croesawu sylwadau a barn y Pwyllgor.

4. Noda gweddill y memorandwm hwn y pynciau y gallwn eu harchwilio fel Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ystod 2000-2001 a blynyddoedd dilynol. Trafoda hefyd oblygiadau'r gwahanol gyfuniad o bynciau y gallwn eu harchwilio o ran costau. Fel y dealla'r Pwyllgor, bydd yr adnoddau y bydd y Cynulliad yn eu rhyddhau i mi yn pennu maint fy rhaglen archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2000-2001 a blynyddoedd dilynol.

5. O fewn yr adnoddau a ryddheir i mi, fy nod fydd darparu'r Pwyllgor â maint ac ansawdd y gwaith sydd ei angen er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn ffordd effeithiol ac, wrth bennu'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen hon, byddaf yn rhoi ystyriaeth lawn i farn a sylwadau'r Pwyllgor. Drwy weithio gyda'r Pwyllgor yn y ffordd hon, byddaf yn cynhyrchu adroddiadau ar ystod mor eang â phosibl o bynciau. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar berfformiad a chanlyniadau ac yn ceisio nodi enghreifftiau o ddefnyddio a rheoli adnoddau yn effeithiol yn ogystal â dangos sut y gellir gwella perfformiad. Rwyf o'r farn y bydd yr ymagwedd hon yn darparu sylfaen i'r Pwyllgor wneud cyfraniad arwyddocaol i'r broses o sicrhau y defnyddir yr adnoddau sydd ar gael i'r Cynulliad yn y ffordd orau, y cyflawnir y canlyniadau a fwriedir ac y sicrheir y gwerth gorau am arian.

**Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian Arfaethedig**

6. Mae fy rhaglen archwiliadau gwerth am arian arfaethedig wedi'i gosod mewn dwy ffordd: yn ôl meysydd pwnc (Tabl 1) ac yn ôl thema (Tabl 2). Mae pob tabl hefyd yn gwahaniaethu rhwng yr astudiaethau hynny y bwriada'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol eu cynnal yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001 a'r rheini y byddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ymgymryd â hwy yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002. Mae Tabl 1 hefyd yn cynnwys pynciau posibl ar gyfer rhaglen archwiliadau gwerth am arian yn ystod blwyddyn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol. Fel rhan o'r gwasanaeth a ddarpara i mi fel Archwilydd Cyffredinol Cymru, bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn monitro datblygiadau yng ngweithgareddau'r Cynulliad ac yn adolygu ei chwmpas gwerth am arian er mwyn sicrhau ei fod yn ystyried newid, blaenoriaethau newydd a phryderon newydd. Yn ei dro bydd hyn yn fy ngalluogi i roi cyfres o gynigion diwygiedig, wedi'u diweddaru yn flynyddol i'r Pwyllgor o'r astudiaethau i'w cynnwys yn y rhaglen ar gyfer fy archwiliadau gwerth am arian yn y dyfodol.

**Tabl 1: Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian Arfaethedig**

**Archwiliadau Gwerth am Arian wedi'u dadansoddi yn ôl meysydd pwnc**

**Iechyd**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Archwiliad o Reolaeth Ystad yr NHS yng Nghymru.

Arolwg o'r strategaeth ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

Arolwg o addysg a hyfforddiant anfeddygol.

Archwiliad o'r defnydd o PFI yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol*

Archwiliad o berfformiad Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru Gyfan.

Arolwg o effaith ailgyflunio Ymddiriedolaeth yr NHS yng Nghymru.

Arolwg o reolaeth ystad mewn Ymddiriedolaeth NHS unigol yng Nghymru.

Arolwg o Wasanaeth Gwaed Cymru.

Arolwg o'r trefniadau yng Nghymru ar gyfer ymdrin ag ymgynghorwyr a waharddwyd ar gyflog llawn.

Arolwg o'r broses gaffael yn yr NHS yng Nghymru.

Arolwg o'r Fenter Ennill Iechyd Cymru.

Noder: cynhelir yr holl astudiaethau arfaethedig yn y maes hwn mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio neu byddant yn cynnwys cyswllt agos ag ef.

**Amaethyddiaeth**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Archwiliad o weithrediad y cynllun Ardaloedd sy'n Amgylcheddol Sensitif (ESAs) yng Nghymru.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

Arolwg o'r Cynllun Taliadau Ardal Tir Âr.

*Pynciau posibl i’w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol*

Archwiliad o’r cynllun iawndal defaid.

Archwiliad o’r Cynllun Lwfansau Iawndal Da Byw Mynydd.

**Trafnidiaeth**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Archwiliad o’r contract cynllunio, adeiladu, ariannu a gweithredu (DBFO) ar gyfer gosod ffordd ddeuol ar yr A55 o Lanfairpwllgwyngyll i Gaergybi.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

Arolwg o effaith ymgyrchoedd diogelwch ffyrdd yng Nghymru.

*Pynciau posibl i’w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

Arolwg o welliannau ffyrdd yng Nghymru.

**Yr amgylchedd**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

Arolwg o weithrediad ac effaith gychwynnol Tir Gofal.

*Pynciau posibl i’w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol.*

Arolwg o’r rhaglen draenio prifwythiennol, amddiffyn rhag llifogydd a diogelu’r arfordir.

Arolwg o Fenter Amgylchedd Cymru.

Arolwg o weithrediadau Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Arolwg o weithrediadau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

**Datblygu Economaidd**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Arolwg o’r trefniadau ar gyfer dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

Archwiliad o broject PFI Rhodfa Biwt.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

Archwiliad o'r cynnydd a wnaed gan Awdurdod Datblygu Cymru wrth gwrdd â'i amcanion.

**Addysg**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Archwiliad o broses gaffael y Sector Addysg Bellach yng Nghymru.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

Archwiliad o broses gaffael y Sector Addysg Uwch yng Nghymru.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol*

Arolwg o Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru.

Hyrwyddo addysgu fel gyrfa yng Nghymru.

Archwiliad o reolaeth ystad y Sector Addysg Bellach yng Nghymru.

**Tai**

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

Arolwg o fentrau i liniaru digartrefedd a byw heb do yng Nghymru (mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio).

**Llywodraeth Leol**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

Ystyried y cynnydd ar y fenter Gwerth Gorau mewn llywodraeth leol yng Nghymru (mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio).

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

Archwiliad o’r broses gweinyddu’r Grant Trafnidiaeth (mewn cydweithrediad â’r Comisiwn Archwilio).

**Hyrwyddo Cymru**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Arolwg o’r camau a gymerwyd i ddiogelu a chadw casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

*Pynciau posibl i’w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

Arolwg o weithgareddau Bwrdd Croeso Cymru.

**Gweinyddu’r Cynulliad**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Arolwg o adeiladau a threfniadau’r Cynulliad.

**Cyffredinol**

Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn ategu’r astudiaethau hyn drwy fonitro mentrau yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol yn ofalus er mwyn nodi a chyflwyno adroddiadau ar unrhyw agweddau sydd yn berthnasol yn benodol i Gymru a’r Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys datblygu Agenda Moderneiddio’r Llywodraeth a chynnydd wrth weithredu dulliau mesur perfformiad yn y sector cyhoeddus. Yn ogystal, byddaf o bryd i’w gilydd yn darparu crynodeb i’r Pwyllgor o’r gwaith yr ymgymerwyd ag ef gan y Comisiwn Archwilio yng Nghymru.

7. Fel y noda Tabl 1, un o’m nodau wrth lunio’r cynigion hyn yw sicrhau y rhoddir y cyfle i’r Pwyllgor, dros y ddwy flynedd nesaf, gael tystiolaeth ar bob categori o wariant y mae’r Cynulliad yn gyfrifol amdano. Yn ogystal â sicrhau y cwmpesir gwariant yn systemataidd, rwyf am ddatblygu rhai themâu allweddol mewn ymgynghoriad â’r Pwyllgor a fydd yn sylfaen i’m gwaith gwerth am arian.

8. Yn fy marn i, mewn gwirionedd, ceir dau gategori o themâu. Mae’r cyntaf yn canolbwyntio ar gaffael, defnyddio a gwaredu asedau ac adnoddau eraill gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Fy nod fyddai helpu’r Pwyllgor i asesu’r cwmpas ar gyfer caffael, defnyddio a gwaredu adnoddau mewn ffordd fwy economaidd, mwy effeithlon a mwy effeithiol. Yn ei dro byddai hyn yn caniatáu i’r Pwyllgor ganfod arbedion ariannol posibl i’r Cynulliad neu’r cwmpas ar gyfer ailddefnyddio adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol a chost-effeithlon.

9. Mae’r ail gyfres o themâu yn ceisio cysylltu fy ngwaith gwerth am arian gyda’r prif

bryderon sy’n llywio neu’n dylanwadu ar holl weithgareddau’r Cynulliad. Er mwyn dangos hyn mae Tabl 2 yn amlygu dau bryder o’r fath: eithrio cymdeithasol a datblygiad cynaladwy. Dengys y tabl hefyd sut y bydd astudiaethau y mae’r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn eu cynnal ar hyn o bryd ynghyd â nifer lle y bydd gwaith yn cychwyn arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf yn cysylltu â’r themâu hyn.

**Tabl 2: Rhaglen Archwiliadau Gwerth am Arian Arfaethedig wedi’i dadansoddi yn ôl thema**

**Caffael Asedau a Gwasanaethau**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol gyfredol*

Rheoli project: Morglawdd Bae Caerdydd

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Menter Ariannu Preifat: Archwiliad o’r contract cynllunio, adeiladu, ariannu a gweithredu (BDFO) ar gyfer gosod ffordd ddeuol ar yr A55 o Lanfairpwllgwyngyll i Gaergybi.

Caffael cyflenwadau a gwasanaethau: Archwiliad o’r broses gaffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru

**Defnyddio Adnoddau**

*Gwaith yr ymgymerir ag ef yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol*

Prosesau rheoli a rheolaeth: uno Awdurdod Datblygu Cymru

Prosesau rheoli a rheolaeth: trin honiadau o esgeulustod clinigol

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

Sicrhau y defnyddir adnoddau yn effeithiol: ystyried y cynnydd ar y fenter Gwerth Gorau mewn llywodraeth leol yng Nghymru

Diogelu asedau: Arolwg o’r camau a gymerwyd i ddiogelu a chadw casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

**Ailddefnyddio a gwaredu adnoddau**

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

| |
|---|
| Nodi a gwaredu eiddo dros ben: Archwiliad o reolaeth Ystad yr NHS yng Nghymru<br><br>Trefniadau olynwyr effeithiol: Arolwg o'r trefniadau ar gyfer dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben<br><br>**Eithrio Cymdeithasol**<br><br>*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*<br><br>Arolwg o'r strategaeth ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru |
| **Datblygiad Cynaladwy**<br><br>*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*<br><br>Archwiliad o weithrediad y cynllun Ardaloedd sy'n Amgylcheddol Sensitif (ESAs) yng Nghymru |

10. Yn ogystal â'r rhaglen waith arfaethedig hon, byddaf hefyd yn ymateb yn gadarnhaol i bob cais am wybodaeth neu gyngor gan y Pwyllgor hyd yn oed mewn meysydd lle mae fy hawliau mynediad yn gyfyngedig.

11. Wrth gynllunio fy rhaglen archwiliadau gwerth am arian gyffredinol, rwyf yn cydnabod y gallai fod datblygiadau arwyddocaol nas rhagwelwyd yn y meysydd gwariant y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt. O dan yr amgylchiadau hyn, byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad gan ddwyn materion penodol o bryder i sylw'r Pwyllgor Archwilio. Yn yr un modd, byddaf yn cyflwyno adroddiad ar achosion o dwyll, lladrad, llygredd neu amhriodoldeb a allai ddod i'r amlwg. Pe bai angen cynhyrchu adroddiad heb ei gynllunio o'r math hwn, hwyrach y bydd angen i mi ohirio rhannau o'm rhaglen arfaethedig am rai misoedd. Y rheswm am hyn yw bod angen aros o fewn fy nyraniad arian y rhydd y Cynulliad i mi ar gyfer fy archwiliadau gwerth am arian, er y buaswn yn anelu at leihau unrhyw effeithiau o'r math hwn gorau y gellir.

**Cost Rhaglen Astudiaethau Gwerth am Arian Arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol**

12. Yn ogystal ag ymgynghori â'r Pwyllgor ynglyn â chynnwys fy rhaglen astudiaethau gwerth am arian arfaethedig, roeddwn o'r farn y byddai hefyd yn ddefnyddiol amlinellu cost bosibl y rhaglen fel y gall y Pwyllgor roi gwybod i'r Cynulliad faint o arian yr hoffai ei ddyrannu i'm gwaith gwerth am arian.

13. Mae dau newidyn yn pennu faint o arian y bydd ei angen arnaf ar gyfer fy rhaglen astudiaethau gwerth am arian, sef:

- maint yr adroddiadau, y nodiadau a'r memoranda a gynhyrchir gennyf bob blwyddyn ac a gyflwynir i'r Cynulliad; a
- cwmpas a manylder pob astudiaeth unigol.

14. Pa lefel bynnag o ddyraniad a dderbyniaf ar gyfer fy rhaglen gwerth am arian, fy nod fyddai cynhyrchu'r nifer mwyaf o adroddiadau posibl. Ar yr un pryd, buaswn am sicrhau bod gan yr adroddiadau hyn ddigon o gwmpas a manylder fel eu bod yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol; eu bod yn ychwanegu gwerth; a'u bod yn helpu'r Pwyllgor i gyflawni effaith fesuradwy cyn gynted â phosibl, gan gynnwys sicrhau arbedion ariannol. Fel y bydd y Pwyllgor yn deall, golyga hyn ei bod yn angenrheidiol bod yn ymwybodol o'r gwrthbwys rhwng maint yr allbwn ar y naill law a chwmpas a dyfnder adroddiadau unigol ar y llall.

15. Y prif ffactor sy'n dylanwadu ar faint fy ngwaith gwerth am arian yw'r galw gan y Pwyllgor Archwilio. Yn fy nhyb i bydd y Pwyllgor yn cyfarfod unwaith y mis pan fydd y Cynulliad yn eistedd. Byddai hyn yn awgrymu tua deg cyfarfod y flwyddyn. Gan ei bod yn debygol y caiff tri chyfarfod eu neilltuo i adroddiadau sy'n deillio o'm gwaith archwilio ariannol a materion cysylltiedig eraill, byddai hyn yn awgrymu y bydd y Pwyllgor yn ystyried fy ngwaith gwerth am arian mewn tua saith o gyfarfodydd bob blwyddyn. O ganlyniad, fy nod fydd darparu digon o ddeunydd i'r Pwyllgor i gwmpasu'r nifer hwn o gyfarfodydd ac yn ddelfrydol buaswn am roi mwy na hyn i'r Pwyllgor fel y byddai ganddo rywfaint o ddewis o ran yr hyn y gallai ei ystyried.

16. O gofio'r hyblygrwydd cyfyngedig hwn o ran maint, y ffactor sy'n dylanwadu fwyaf ar gost fy rhaglen gwerth am arian yw cwmpas a manylder yr astudiaethau unigol. Gellid ymdrin â rhai o'r pynciau a restrir yn Nhabl 1 ar lefel gymharol uchel mewn adroddiad cryno a fyddai'n darparu'r sylfaen ar gyfer cyfarfod effeithiol iawn o'r Pwyllgor. Mae pynciau eraill yn gofyn am ymagwedd ehangach a manwl (gan gynnwys er enghraifft rhaglen o ymweliadau i sefydliadau) er mwyn cynhyrchu, er enghraifft, ddangosyddion o arfer da neu arbedion ariannol posibl. Enghraifft ddefnyddiol o'r ymagwedd hon yw'r adroddiad a gynhyrchwyd yn gynharach eleni gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar Addysg Bellach yng Nghymru, y ceir copïau ohono gyda'r papur hwn.

17. Roeddwn o'r farn y byddai'r Pwyllgor yn ei chael yn ddefnyddiol gweld goblygiadau hyn ac fe nodais isod, at ddibenion eglurhaol, yr hyn y gallai'r Pwyllgor, mewn gwirionedd, ei brynu ar gyfer gwahanol lefelau o ddarpariaeth.

- Am <u>£450,000</u>, byddai'n bosibl darparu digon o ddeunydd i'r Pwyllgor lenwi hyd at saith o sesiynau. Fodd bynnag, ar y lefel hon byddai'n anodd darparu unrhyw elfen o ddewis i'r Pwyllgor ac ni fyddai'n bosibl cynhyrchu adroddiad ar bwnc o gwmpas a manylder tebyg i'r adroddiad ar Addysg Bellach yng Nghymru. Hefyd ar y lefel hon byddai'n anodd ymateb mor gyflym ag y buaswn yn hoffi i geisiadau gan Aelodau o'r Pwyllgor am gyngor a gwybodaeth ychwanegol.
- Am <u>£650,000</u>, dylai fod yn bosibl darparu digon o ddeunydd i'r Pwyllgor lenwi saith o sesiynau a hefyd ddarparu rhywfaint o ddewis. Byddai gennyf fwy o hyblygrwydd i ymateb i

ddatblygiadau nas rhagwelwyd a hefyd ddarparu ymatebion cyflymach i'r Pwyllgor i geisiadau am gyngor a gwybodaeth ychwanegol. Ar y lefel hon byddwn hefyd yn gallu cynnal fy astudiaethau yn fanylach ac â chwmpas mwy a darparu o leiaf un astudiaeth i'r Pwyllgor yn debyg i'r adroddiad ar Addysg Bellach yng Nghymru. Byddai hyn, yn fy marn, yn creu mwy o gyfleoedd i'r Pwyllgor nodi arbedion ariannol posibl.

- Am £850,000, buasai'n bosibl darparu deunydd i'r Pwyllgor ar gyfer saith o sesiynau o leiaf a darparu graddau mwy sylweddol o ddewis. Byddai pob un o'r adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor yn gynnyrch astudiaethau a gynhaliwyd mewn cryn fanylder a chwmpas a gallwn gynnal o leiaf dwy astudiaeth yn debyg i'r un ar Addysg Bellach yng Nghymru. Byddai darpariaeth ar y lefel hon hefyd yn fy ngalluogi i fuddsoddi mwy wrth ddatblygu a chynllunio astudiaethau gwerth am arian mwy effeithiol. Byddai hyn yn ei dro yn caniatáu i mi dargedu fy adnoddau yn fwy effeithiol byth ar feysydd oedd â'r potensial i gynhyrchu arbedion ariannol.

18. Pwynt pellach y bydd y Pwyllgor am ei nodi yw nad yw'r tri ffigwr hyn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer Treth Ar Werth. Pan gynhwysir TAW cynydda'r symiau a nodir uchod o £450,000 i £530,000 , o £650,000 i £765,000 ac o £850,000 i £1 filiwn. Ymddengys y symiau hyn, sydd wedi'u talgrynnu, yn y memorandwm ar fy amcangyfrif ar gyfer blwyddyn ariannol 2000-01 yr wyf yn ei anfon ar wahân i'r Pwyllgor. Mae'r memorandwm hwnnw hefyd yn egluro pam bod yn rhaid i mi gynnwys darpariaeth ar gyfer TAW yn fy amcangyfrif.

19. O ran amseru fy ngwaith, ar ba lefel bynnag o adnoddau a ddyrennir i mi ar gyfer fy rhaglen archwiliadau gwerth am arian arfaethedig, bydd angen i mi gyflwyno fy rhaglen waith fesul cam fel y byddaf yn cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mewn termau ymarferol ystyr hyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2000-2001 yw, er enghraifft, y byddai'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cychwyn ar ei gwaith y flwyddyn honno ar y pynciau a restrir yn y memorandwm ar gyfer 2000-2001. Gan y bydd amrywiaeth ym maint yr archwiliad y bydd ei angen ar gyfer pynciau unigol ac o ran yr amser y bydd ei angen i gytuno ar y ffeithiau perthnasol â'r cyrff archwiliedig priodol, cwblheir rhai o'r archwiliadau hyn yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001 ond ni fyddai eraill ar gael i'w hystyried gan y Pwyllgor tan flwyddyn ariannol 2001-2002.

**Casgliad**

20. Gwahoddir y Pwyllgor

- i benderfynu ar nifer a natur yr astudiaethau sydd eu hangen arno a rhoi gwybod i'r Cynulliad am y gofyniad ariannol; ac
- i roi barn gychwynnol ar ba bynciau sydd o ddiddordeb penodol i'r Aelodau neu, yn wir, awgrymu pynciau eraill nas cynhwysir ymhlith y rheini a restrir isod.

**John Bourn** Adeilad Penpier
**Archwilydd Cyffredinol Cymru** Glannau'r Brifddinas
*Caerdydd*
*14 Medi 1999 CF10 5TH*

**Atodiad A**

# Pynciau posibl ar gyfer archwiliadau gwerth am arian gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

## Iechyd

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

### 1. Rheolaeth Ystad yr NHS yng Nghymru

Mae'r NHS yng Nghymru yn defnyddio tir ac adeiladau gwerth mwy na £1.3 biliwn. Yr astudiaeth hon fydd y gyntaf mewn cyfres o adroddiadau ar y pwnc hwn a byddai'n canolbwyntio ar reolaethau rheoli sy'n weithredol er mwyn sicrhau y defnyddir yr asedau hyn yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol. Lle y bo'n briodol, byddai'r astudiaeth hefyd yn ceisio nodi'r cwmpas ar gyfer gwaredu tir neu adeiladau nad oes eu hangen bellach o bosibl.

### 2. Strategaeth ar gyfer ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yng Nghymru

Dyrannwyd cyfanswm o £1.1m i gefnogi'r rhaglen hon ym mlwyddyn ariannol 1999-2000. Mae gweithredu'r strategaeth hon yn effeithiol yn gofyn am gydweithio rhwng gwahanol asiantaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol. Bydd yn cynnwys sefydlu Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru, ariannu cynlluniau sector gwirfoddol, datblygu deunydd cyhoeddusrwydd a datblygu systemau i fesur effaith y strategaeth. Bydd yr astudiaeth yn adolygu cynnydd.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

### 3. Addysg a hyfforddiant Anfeddygol

Mae addysg a hyfforddiant nyrsys a phobl broffesiynol eraill sy'n gysylltiedig â meddyginiaeth yn ffactor allweddol wrth sicrhau addasrwydd gweithlu'r NHS yng Nghymru. Yng Nghymru, roedd costau addysg a hyfforddiant anfeddygol ym 1998-99 tua £80 miliwn. Gwariwyd y rhan fwyaf o'r

arian gan gonsortia addysg a swyddfeydd rhanbarthol yr oedd ganddynt gontractau â sefydliadau addysg uwch. Cynhelir yr astudiaeth hon mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio a chaiff ei chysylltu ag astudiaeth debyg yn Lloegr. Bydd yn canolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu, comisiynu a chontractio ar gyfer materion addysg a sicrwydd ansawdd.

**4. Defnyddio'r PFI yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru**

Bydd yr astudiaeth hon yn ystyried y prif drefniadau PFI a lofnodwyd sy'n cynnwys yr NHS yng Nghymru. Hyd yn hyn bu tri phroject mawr gydag amcangyfrif cyfanswm cost cyfalaf o £16.3 miliwn. Y tri phroject yw Uned Iechyd Cymdogaeth Cas-gwent, Uned Endoscopi a Llawdriniaeth Dydd Nevill Hall a Phreswylfannau Staff Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae trafodaethau manwl yn mynd rhagddynt ar gyfer gwerth £70 miliwn ychwanegol o brojectau iechyd ac mae'r Ymddiriedolaethau NHS yn ymchwilio i gwmpas ar gyfer PFI mewn projectau pellach gwerth £40 miliwn. Nod yr astudiaeth fydd asesu'r camau sy'n cael eu cymryd gan yr NHS yng Nghymru i weithredu ar y gwersi a ddysgwyd o'r trefniadau cynnar.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol*

**5. Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru Gyfan**

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru Gyfan ar 1 Ebrill 1998 gan uno'r pedair ymddiriedolaeth ambiwlans a fu'n gwasanaethu Cymru cyn hynny. Ym 1998-99, £61 miliwn oedd incwm yr Ymddiriedolaeth ac roedd ei gwariant yn dod i gyfanswm o £58 miliwn. Roedd yn cyflogi 2000 aelod o staff ac roedd ganddi asedau sefydlog gwerth tua £28 miliwn. Bydd yr astudiaeth yn adolygu perfformiad yr Ymddiriedolaeth.

**6. Effaith ailgyflunio Ymddiriedolaeth yr NHS**

Ym mis Ebrill 1999, o ganlyniad i raglen uno strategol ledled Cymru cafwyd gostyngiad yn nifer yr Ymddiriedolaethau NHS o 26 i 16. Ystyriwyd bod ailgyflunio yn gam pwysig wrth foderneiddio'r NHS yng Nghymru. Y nod oedd darparu gwell gwasanaethau i gleifion, er mwyn caniatáu gwell gwaith cynllunio a, gydag amser, rhyddhau amcangyfrif o £7 miliwn y flwyddyn o gostau gweinyddol i ofal cleifion. Bydd yr astudiaeth yn ymchwilio i effaith y newidiadau hyn ac yn asesu'r graddau y cyflawnwyd nodau'r ailgyflunio.

**7. Rheolaeth ystad mewn Ymddiriedolaeth NHS unigol yng Nghymru**

Byddai'r astudiaeth hon yn dilyn yr astudiaeth a amlinellir uchod a fydd yn ystyried rheolaeth ystad yn yr NHS yng Nghymru yn gyffredinol. Y nod fyddai defnyddio ymagwedd astudiaeth achos i nodi agweddau ar arfer da y gallai pob un o'r Ymddiriedolaethau yng Nghymru eu cymhwyso i ddefnyddio tir ac adeiladau yn fwy effeithlon ac effeithiol a thrwy hynny nodi a gwaredu tir ac adeiladau nad oes eu hangen i fodloni gofynion.

**8. Gwasanaeth Gwaed Cymru**

Gyda gwariant o tua £12 miliwn y flwyddyn, Gwasanaeth Gwaed Cymru yw'r casglwr a'r cyflenwr gwaed statudol â monopoli yng Nghymru (ac eithrio Gogledd Cymru sy'n cael ei waed gan yr Awdurdod Gwaed Cenedlaethol, y corff sy'n casglu ac yn cyflenwi gwaed yn Lloegr). Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar a yw Gwasanaeth Gwaed Cymru yn bodloni gofynion ysbytai a pha fesurau y mae'n eu cymryd i wella ei berfformiad.

**9. Gwahardd ymgynghorwyr ar gyflog llawn**

Bu nifer o achosion diweddar yn yr NHS o ymgynghorwyr yn cael eu gwahardd am nifer o flynyddoedd ar gyflog llawn. Roedd yr achos diweddaraf yn ymwneud â Bernard Charnley a aildderbyniwyd i'w swydd gan Ymddiriedolaeth NHS Gogledd Morgannwg yn dilyn pedair blynedd wedi'i wahardd ar gyflog llawn. Bydd yr astudiaeth yn ystyried a yw'r ffordd yr ymdrinnir â'r achosion hyn yn cynrychioli gwerth am arian.

**10. Caffael yn yr NHS yng Nghymru**

Bob blwyddyn mae Awdurdodau Iechyd ac Ymddiriedolaethau yng Nghymru yn gwario tua £300 miliwn ar nwyddau a gwasanaethau. Bydd yr astudiaeth hon yn asesu pa mor dda a gaiff y swyddogaeth gaffael yn yr NHS yng Nghymru ei rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau y defnyddir adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol bosibl. Hon fyddai'r astudiaeth gyntaf mewn cyfres o adroddiadau ar y pwnc pwysig hwn.

**11. Menter Ennill Iechyd Cymru**

Ym mis Mehefin 1997, cyhoeddodd y Swyddfa Gymreig gyfres o 15 o Dargedau Ennill Iechyd. Roedd y rhain yn cwmpasu, er enghraifft, marwolaethau cynnar o ganserau penodol, clefyd y galon a strôcs, babanod a enir â phwysau isel, a dolur cefn a chryd y cymalau. Pennwyd y rhan fwyaf o'r targedau i'w cyflawni erbyn 2002. Dengys canlyniadau diweddaraf gwaith monitro (ar gyfer 1997), ar gyfer pob targed sy'n seiliedig ar gyfraddau marwolaeth, bod Cymru yn cymharu'n wael â Lloegr. Byddai'r astudiaeth yn asesu'r trefniadau monitro ac yn disgrifio'r cynnydd a wnaed wrth fodloni'r 15 o dargedau.

Noder: byddai'r holl astudiaethau arfaethedig yn y maes hwn yn cael eu cynnal mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio neu byddent yn cynnwys cysylltiad agos â'r Comisiwn.

## Amaethyddiaeth

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

**1. Gweithrediad y cynllun Ardaloedd sy'n Amgylcheddol Sensitif (ESAs) yng Nghymru**

Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar a yw’r cynllun wedi annog arferion amaethyddol buddiol sy’n cadw ac yn gwella’r amgylchedd. Bydd yn asesu digonolrwydd gweithdrefnau rheoli ar gyfer sicrhau cydymffurfiad ag amcanion y cynllun a monitro costau. Mae yna chwe Ardal sy’n Amgylcheddol Sensitif yng Nghymru sy’n cynrychioli tua 25 y cant o’r tir yng Nghymru. Amcangyfrifir mai cyfanswm y gwariant ar y cynllun hwn yn ystod 1999-2000 fydd £7.5 miliwn.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

**2. Cynllun Taliadau Ardal Tir Âr**

Mae’r Cynllun Taliadau Ardal Tir Âr yn digolledu tyfwyr grawnfwyd, hadau olew a chnydau protein ar gyfer colli incwm o ganlyniad i ostyngiad mewn prisiau cynnal. Mae un elfen o’r cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr neilltuo canran benodedig o dir, yn gyfnewid am iawndal. Mae’r gwariant ar y cynllun hwn yng Nghymru yn debygol o fod yn £10.5 miliwn yn ystod 1999-2000. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar ansawdd gweinyddu’r cynllun yng Nghymru.

*Pynciau posibl i’w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol*

**3. Cynllun iawndal defaid**

Yn dilyn damwain Chernobyl ym 1986, a’r llygredd ymbelydrol dilynol mewn rhannau o Ogledd Cymru, monitrwyd defaid yn barhaus er budd diogelwch bwyd. Amcan y cynllun hwn yw digolledu ffermwyr am waith sy’n gysylltiedig â’r gwaith monitro hwn. Ar ddiwedd 1998, roedd cyfyngiadau yn effeithio ar tua 360 o ddaliadau fferm neu rannau o ddaliadau a hyd at yr adeg honno talesid £9.4 miliwn mewn iawndal. Amcangyfrifir y bydd gwariant ym 1999-2000 yn dod i gyfanswm o £606,000 a bydd gwaith gwyddonol cysylltiedig yn costio £700,000 pellach. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar reoli a gweithredu’r Cynllun.

**4. Y Cynllun Lwfansau Iawndal Da Byw Mynydd**

Nod y Cynllun Iawndal Da Byw Mynydd yw helpu i sicrhau parhad ffermio da byw mewn ardaloedd a gefnogir yn llai a thrwy hynny helpu i gynnal cymunedau gwledig a gwarchod cefn gwlad. Darpara’r cynllun daliadau blynyddol ar gyfer bridio gwartheg a defaid ac ym 1999-2000 disgwylir i’r gwariant o dan y cynllun ddod i gyfanswm o tua £27 miliwn. Mae’r Undeb Ewropeaidd yn penodi llefydd fel ardaloedd a gefnogir yn llai i gydnabod anfanteision naturiol pridd a hinsawdd a wynebir gan y diwydiant amaethyddol yn yr ardaloedd hynny. Gan ystyried gwerthusiad o’r cynllun a gyhoeddwyd gan y llywodraeth ym mis Ebrill 1998, bydd yr astudiaeth hon yn asesu gweinyddiaeth y cynllun a’i effaith yng Nghymru.

## Trafnidiaeth

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

**1. Contract cynllunio, adeiladu, ariannu a gweithredu (DBFO) ar gyfer gosod ffordd ddeuol ar yr A55 o Lanfairpwllgwyngyll i Gaergybi**

Amcangyfrif cost cyfalaf y project hwn yw £117 miliwn a dyfarnwyd y contract ar gyfer y cynllun i UK Highways ym mis Rhagfyr 1998. Disgwylir i'r gwaith adeiladu newydd gael ei gwblhau erbyn diwedd 2001. Bydd yr astudiaeth yn ymchwilio i'r camau a gymerwyd er mwyn sicrhau gwerth am arian gan y contract hwn. Bydd hefyd yn canolbwyntio ar y ffordd y gwerthuswyd y project a sut y cafodd y risgiau eu nodi, eu meintioli a'u rhannu â'r contractwr.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

**2. Diogelwch Ffyrdd**

Amcan y gwariant ar ddiogelwch ffyrdd yng Nghymru yw annog cyflawni gostyngiad o draean yn nifer y bobl a anefir ar y ffyrdd erbyn y flwyddyn 2000, yn seiliedig ar lefel y bobl a anefir ar gyfartaledd dros y cyfnod 1981 i 1985. Ym 1997, roedd nifer y bobl a laddwyd ac a anafwyd yn ddifrifol o ganlyniad i ddamweiniau ffyrdd yng Nghymru 50.6 y cant yn is na gwaelodlin 1981-85. Gwrthbwyswyd hyn gan gynnydd yn nifer y mân anafiadau ac o ganlyniad roedd nifer cyffredinol y bobl a anafwyd ym 1997 2.7 y cant yn uwch na chyfartaledd 1981-85. Mae strategaethau a chynlluniau newydd wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer diogelwch ffyrdd yng Nghymru a bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar eu gweithredu a'u heffaith gychwynnol.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

**3. Gwelliannau ffyrdd yng Nghymru**

Caiff cyfanswm o tua £65 miliwn ei wario ar gynlluniau gwella cefnffyrdd yng Nghymru ym 1999-2000. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar gynllunio a rheoli'r rhaglen hon.

## Yr amgylchedd

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

**1. Tir Gofal**

Amcan Tir Gofal, y bwriedir iddo ddechrau yn ystod blwyddyn ariannol 1999-2000, yw annog arferion amaethyddol a fydd yn helpu i ddiogelu a gwella tirwedd a bywyd gwyllt cefn gwlad Cymru. Mae hefyd yn anelu at greu cyfleoedd pellach i bobl fwynhau cefn gwlad Cymru. Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n gweinyddu Tir Gofal mewn partneriaeth â'r Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Un o dargedau'r Cyngor ar gyfer 1999-2000 yw cyflawni isafswm o 600 o gytundebau Tir Gofal. Bydd yr astudiaeth yn adolygu gweithrediad Tir Gofal a'i effaith gychwynnol.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol.*

**2. Draenio prifwythiennol, amddiffyn rhag llifogydd a diogelu'r arfordir**

Mae'r Cynulliad yn cefnogi mesurau a gyfiawnheir yn economaidd ac sy'n amgylcheddol dderbyniol yn erbyn erydiad gan y môr a llifogydd drwy gynorthwyo Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, awdurdodau lleol a byrddau draenio mewnol. I ddangos hyn, nod Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yw gwario £12.1 miliwn ar amddiffyn rhag llifogydd yn ystod 1999-2000. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar gynllunio a rheoli'r rhaglen ar gyfer draenio prifwythiennol, amddiffyn rhag llifogydd a diogelu'r arfordir.

**3. Menter Amgylchedd Cymru**

Rheolir Amgylchedd Cymru ar ran y Cynulliad gan Ymddiriedolaeth Bro Tywysog Cymru ac yn ystod 1999-2000 bydd yn gwario tua £2.4 miliwn ar brojectau a grantiau. Amcan y rhaglen hon yw cynnal gweithredu gwirfoddol sy'n cyfrannu at ddatblygiad cynaladwy drwy helpu i wella a diogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar ba mor dda y caiff y fenter ei gweinyddu.

**4. Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

Y Cyngor yw'r ymgynghorydd statudol ar yr holl faterion cadwraeth natur a chefn gwlad. Yn ystod 1999-2000 bydd yn derbyn £25 miliwn mewn cymorth mewn grant gan y Cynulliad. Nod y Cyngor yw bodloni cyfres o dargedau ar gyfer ei waith. Bydd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar berfformiad y Cyngor a'r graddau y mae wedi bodloni ei dargedau.

**5. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**

Mae cyfrifoldebau Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cynnwys rheoleiddio a gorfodi trin, storio, symud a gwaredu gwastraff a allai lygru, a chadw a gwella amgylchedd y dwr, gan gynnwys ansawdd afonydd, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Ym 1999-2000 amcangyfrifir y daw gwariant arfaethedig yr Asiantaeth i gyfanswm o £49 miliwn. Derbynia ei hincwm o nifer o ffynonellau gan gynnwys grant mewn cymorth gan y Cynulliad (£14 miliwn ym 1999-2000). Cyn 1 Ebrill 1999, derbyniodd y grant mewn cymorth hwn gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a chan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar sut y defnyddia'r Asiantaeth y grant mewn cymorth y mae'n ei dderbyn gan y Cynulliad.

## Datblygu Economaidd

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

**1. Dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben**

Sefydlwyd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ym 1987 i adfywio ymron i 1,100 hectar yn Ne Caerdydd a galluogi'r ddinas i gael ei chymharu ag unrhyw ddinas forwrol gyfwerth yn y byd. Ym mis Gorffennaf 1997, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru y byddai'r Gorfforaeth yn dirwyn i ben erbyn 31 Mawrth 2000. Mae'r Gorfforaeth wedi cynhyrchu cynllun gweithredu dirwyn i ben ac mae'n gweithio gyda chyrff dilynol posibl i gyflawni trosglwyddiad cyfrifoldebau trefnus. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar reoli'r broses o ddirwyn i ben a throsglwyddo cyfrifoldebau. Bydd hefyd yn ymchwilio i'r trefniadau a ddatblygwyd i gyflawni adfywiad cynaladwy'r Bae a chael yr elw mwyaf posibl ar y buddsoddiad cyhoeddus a roddwyd i'r ardal.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

**2. Project PFI Rhodfa Biwt**

Mae cynllun PFI Rhodfa Biwt yn cynnwys adeiladu rhodfa naws gyfandirol a fydd yn cysylltu canol dinas Caerdydd â'r glandwr ac a fydd yn ailddatblygu'r tir ar y naill ochr i'r rhodfa. Mae Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi llofnodi Cytundeb Pennau Termau â City Link a'r amcangyfrif o gost cyfalaf y cynllun yw £45 miliwn. Pan fydd y Gorfforaeth yn dirwyn i ben ar 31 Mawrth 2000 bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn cymryd y cyfrifoldeb dros y cynllun hwn. Bydd yr astudiaeth yn ystyried y camau a gymerwyd i sicrhau gwerth am arian gan gynnwys sut y gwerthuswyd y project, a sut y cafodd y risgiau eu nodi, eu meintioli a'u rhannu â'r sector preifat.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

**3. Awdurdod Datblygu Cymru**

Bydd yr astudiaeth hon yn dilyn yr archwiliad SAG cyfredol o greu Awdurdod Datblygu Cymru mwy. Bydd yn canolbwyntio ar berfformiad yr Awdurdod, yn arbennig y graddau y mae wedi bodloni ei dargedau.

## Addysg

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

**1. Y Broses Gaffael yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru**

Byddai'r astudiaeth hon yn dilyn yr adroddiad ar Addysg Bellach yng Nghymru a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ym mis Gorffennaf 1999. Byddai'n asesu'r graddau y mae'r sector yn ystyried yr enghreifftiau o arfer da a nodwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Byddai hefyd yn archwilio sut y mae'r Cyngor Cyllido Addysg Bellach yn annog gwell arferion

caffael yn y sector.

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

**2. Y Broses Gaffael yn y Sector Addysg Uwch yng Nghymru**

Gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd ar gyfer y sector Addysg Bellach, byddai'r astudiaeth hon yn asesu'r graddau y mae arfer caffael da yn cael ei ddilyn gan sefydliadau yn y Sector Addysg Uwch.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 a blynyddoedd dilynol*

**3. Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru**

Yr Awdurdod yw'r prif gorff ymgynghorol yng Nghymru ar faterion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm, asesu a chymwysterau. Ers 1997, bu'r Awdurdod hefyd yn gyfrifol am y Cyngor Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol hefyd yn ogystal â chymwysterau academaidd. Mae'n cymryd rhan bwysig wrth godi safonau addysg ar lefelau cynradd, uwchradd ac ôl-16. Ym 1999-2000, bydd gwariant yr Awdurdod yn dod i gyfanswm o £9.4 miliwn a'i gostau rhedeg yn £2.5 miliwn. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar reolaeth a pherfformiad yr Awdurdod.

**4. Hyrwyddo addysgu fel gyrfa yng Nghymru**

Cyhoeddwyd y Papur Gwyrdd, "Adeiladu Ysgolion Ardderchog Gyda'n Gilydd ar gyfer Addysgu a Dysgu", ar ddyfodol y proffesiwn addysgu yng Nghymru ym mis Ionawr 1999. Un o'i nodau oedd nodi ffyrdd o wella sefyllfa broffesiynol athrawon a denu, cadw a chymell yr ymgeiswyr mwyaf disglair a'r ymgeiswyr gorau. Gan weithio mewn partneriaeth â'r sector addysg uwch a'r sector addysg bellach, mae swyddogion wedi bod yn ceisio nodi a chynnal mentrau a gynlluniwyd i hyrwyddo addysgu fel gyrfa. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar lwyddiant y mentrau hyn a datblygiadau cysylltiedig eraill.

**5. Rheolaeth Ystad yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru**

Gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddatblygwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar gyfer archwilio rheolaeth ystadau mewn sectorau eraill, byddai'r astudiaeth hon yn asesu'r graddau y dilynir arferion rheoli da gan sefydliadau yn y Sector Addysg Bellach yng Nghymru.

## Tai

*Pwnc posibl i'w gynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

**1. Lliniaru digartrefedd a byw heb do yng Nghymru**

O dan adran 180 Deddf Tai 1996, mae'r Cynulliad yn cefnogi sefydliadau gwirfoddol sy'n helpu i liniaru digartrefedd a byw heb do. Daw'r gwariant ar y rhaglen hon i gyfanswm o £1.1 miliwn ym 1999-2000. O hyn, bydd £785,000 yn cynnal cynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau gwirfoddol mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol i helpu i liniaru cysgu ar y stryd. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar weinyddiaeth ac effaith y rhaglen hon. Fe'i cynhelir mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio.

## Llywodraeth Leol

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2001-2002*

**1. Ystyried y cynnydd ar y fenter Gwerth Gorau mewn llywodraeth leol yng Nghymru**

Daw gwerth gorau yn rhwymedigaeth statudol i awdurdodau lleol ar 1 Ebrill 2000 a bydd yn cwmpasu pob gwasanaeth. Yn y pen draw bydd Gwerth Gorau yn disodli Tendro Cystadleuol Gorfodol tra'n cadw cystadleuaeth fel dull rheoli pwysig. Bydd yn ofynnol i awdurdodau Gwerth Gorau gyflwyno gwasanaethau drwy ddefnyddio'r dulliau mwyaf economaidd, effeithlon ac effeithiol sydd ar gael. Byddant yn cynhyrchu cynlluniau blynyddol ac yn cyflwyno adroddiadau ar berfformiad. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar y cymorth a'r arweiniad a ddarperir yn ganolog i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer gweithredu'r fenter a nodi arfer da. Mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio, bydd yr astudiaeth hefyd yn ceisio asesu profiad awdurdodau lleol wrth weithredu'r fenter hon.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

**2. Gweinyddu'r Grant Trafnidiaeth**

Mae'r Grant Trafnidiaeth yn talu 50 y cant o gost cynlluniau cymwys a dyma brif ffynhonnell grant cyfalaf cynlluniau trafnidiaeth mawr awdurdodau lleol. Ym 1999-2000 bydd grantiau o £17.2 miliwn yn cynnal gwariant o hyd at £37.5 miliwn. Darpara gymorth ar gyfer cynlluniau ffyrdd sy'n costio mwy na £5 miliwn, pecynnau trafnidiaeth integredig sy'n costio dros £1 miliwn a mentrau teithio'n ddiogel i'r ysgol. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar reoli a gweinyddu'r cynllun ac fe'i cynhelir mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Archwilio.

## Hyrwyddo Cymru

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

**1. Diogelu a chadw casgliadau Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru**

Amcangyfrifir y bydd gwariant gros Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ym 1999-2000 yn £14.7 miliwn. Un o amcanion allweddol y sefydliad yw curadu, cadw a dogfennu'r casgliadau i safonau priodol. Bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar lwyddiant bodloni'r amcan hwn.

*Pynciau posibl i'w cynnwys yn 2002-2003 neu flwyddyn ddilynol*

**2. Bwrdd Croeso Cymru**

Nod Bwrdd Croeso Cymru yw gwneud y gorau o fuddiannau economaidd a chyflogaeth twristiaeth i bobl Cymru. Bydd ei gymorth mewn grant ym 1999-2000 yn £15.4 miliwn. Ffocws yr astudiaeth fydd perfformiad Bwrdd Croeso Cymru.

## Gweinyddu'r Cynulliad

*Gwaith y gellir ymgymryd ag ef yn ystod blwyddyn ariannol 2000-2001*

**1. Arolwg o drefniadau adeiladau'r Cynulliad**

Bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn adolygu trefniadau adeiladau'r Cynulliad yn rheolaidd, gan gynnwys adeiladu adeilad newydd y Cynulliad. Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, fel y bo'n briodol, ar ddatblygiadau.

**Atodiad B**

# Archwiliadau Gwerth am Arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru

Ar hyn o bryd mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnal pedwar archwiliad gwerth am arian ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru.

**Cadw: Diogelu a chadw treftadaeth adeiledig yng Nghymru**

Mae Cadw yn gweithredu ystod o swyddogaethau ar ran y Cynulliad i ddiogelu a chadw'r dreftadaeth adeiledig yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn archwilio trefniadau Cadw ar gyfer diogelu'r dreftadaeth adeiledig drwy restru a chofrestru eiddo ac mae'n asesu cynnydd Cadw parthed y dasg hon. Mae'r astudiaeth hefyd yn archwilio grantiau a ddyfernir gan Cadw i ddiogelu a chadw eiddo. Mae hyn yn debygol o arwain at argymhellion ar gyfer gwella trefniadau presennol Cadw gan gynnwys monitro cydymffurfiad ag amodau grant yn well.

**Rheoli Creu Awdurdod Datblygu Cymru Mwy**

Archwilia'r astudiaeth hon y gwaith o reoli trosglwyddo swyddogaethau Bwrdd Datblygu Cymru Wledig ac Awdurdod Tir Cymru i Awdurdod Datblygu Cymru. Mae'n ystyried y ffordd y cafodd yr

uno ei gynllunio a'i weithredu ac a fodlonwyd amcanion yr uno gan gynnwys graddau'r arbedion ar gostau rhedeg.

**Morglawdd Bae Caerdydd**

Archwilia'r astudiaeth hon y cynnydd ar broject Morglawdd Bae Caerdydd. Canolbwyntia ar reoli'r project ac, yn benodol, costau'r Morglawdd a'r treuliau cysylltiedig y mae'r Cynulliad bellach yn gyfrifol amdanynt.

**Trin honiadau o esgeulustod clinigol**

Ym 1997-98 roedd cyfanswm y gost a ragwelwyd i'r NHS yng Nghymru o ran honiadau o esgeulustod clinigol yn fwy na £144 miliwn. Ar 1 Ebrill 1999, cyflwynwyd trefniadau diwygiedig ar gyfer ymdrin â'r honiadau hyn. Archwilia'r astudiaeth hon y gwaith o reoli'r broses hon gan geisio nodi gwelliannau.